Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Cofnodion Cyfarfod o'r Bwrdd, 17 Gorffennaf 2020 – Cyfarfod TEAMS**

**Yn bresennol:**

Shan Morgan
Meena Upadhyaya
Ellen Donovan
Jeff Farrar
Gareth Lynn
Andrew Goodall
Tracey Burke
Andrew Slade
Des Clifford
Peter Kennedy
Natalie Pearson
Gawain Evans
David Richards
Andrew Jeffreys
Helen Lentle
Charlotte Cosserat

**Ysgrifenyddiaeth:**
Charmain Watts

**Ymddiheuriadau:**
Dim

1. **Croeso**

**1.1** Croesawodd yr Ysgrifennydd Parhaol bawb a oedd yn bresennol yn y cyfarfod, sef trydydd cyfarfod o bell Bwrdd Llywodraeth Cymru, gan groesawu adborth gan yr Aelod Cysgodol o'r Bwrdd ynghylch y ffordd newydd o weithio o bell.

**1.2** Cytunodd y Bwrdd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol, gan groesawu cynllun gweithredu'r Bwrdd sy'n caniatáu i'r aelodau fonitro hynt y camau gweithredu.

2. **Materion presennol**

**Cyfrifon blynyddol**

**2.1** Rhoddodd Gawain Evans yr wybodaeth ddiweddaraf am y cyfrifon blynyddol, ynghyd â'r ffrâm amser newydd ar gyfer llofnodi'r cyfrifon a dyddiadau sesiynau'r pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus.

**Yr wybodaeth ddiweddaraf am COVID-19**

**2.2** Trafododd y Bwrdd sefyllfa bresennol y pandemig a'r posibilrwydd o weld ail gynnydd sydyn mewn achosion yn ystod y gaeaf. Trafodwyd y cynlluniau ar gyfer rheoli hyn, ochr yn ochr â rheoli pwysau eraill megis Brexit a'r angen i gyflawni'r rhaglen lywodraethu.

**2.3** Hefyd, trafododd y Bwrdd y posibilrwydd o gynnal ymchwiliad cyhoeddus, rhywbeth yr oedd y Prif Weinidog wedi ei groesawu. Unwaith yn rhagor, pwysleisiodd yr Ysgrifennydd Parhaol bwysigrwydd cofnodi penderfyniadau'n ffurfiol, ochr yn ochr â'r rhagdybiaethau sy'n sail iddynt a sut y bydd unrhyw risgiau yn cael eu rheoli. Cytunodd y Bwrdd bod hyn yn hanfodol i sicrhau y byddai'n bosibl craffu arnynt yn y dyfodol.

**2.4** Rhoddodd Andrew Goodall yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd ynghylch y datblygiadau diweddaraf mewn perthynas â COVID-19 a'r sefyllfa bresennol yng Nghymru. Canolbwyntiodd y drafodaeth ar:

- Faterion yn ymwneud â throsglwyddo'r feirws yng Nghymru,
- Gofal critigol,
- Y gyfradd marwolaethau yng Nghymru,
- Profi Olrhain Diogelu,
- Cyfarpar diogelu personol,

- Protocol ar gyfer cyfyngiadau lleol,
- Cynlluniau ar gyfer ymateb i’r pandemig yn y tymor hir, a’r hyn a ddysgwyd hyd yn hyn.

## 3. Yr wybodaeth ddiweddaraf gan y Cyfarwyddwyr Cyffredinol

**3.1** Rhoddodd y Cyfarwyddwyr Cyffredinol yr wybodaeth ddiweddaraf am y gweithgarwch allweddol a oedd yn digwydd o fewn eu meysydd gwaith: soniodd Andrew Slade am yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol, Des Clifford am Swyddfa’r Prif Weinidog, a Tracey Burke am Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus.

- Canolbwyntiodd Andrew ar y prif feysydd gwaith presennol a phwysigrwydd blaenoriaethu’r gallu i gyflawni mewn perthynas â COVID-19, Brexit, a Rhaglen Ymrwymiadau’r Llywodraeth. Canolbwyntiodd hefyd ar yr angen i ailddechrau yn y diwydiant trafnidiaeth, ein hymateb economaidd, a gwaith Brexit ym maes yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol.

- Canolbwyntiodd Des ar waith y Strategaeth Adfer, y cylch adolygu tair wythnos, a llacio ar y cyfyngiadau. Hefyd, rhoddodd yr wybodaeth ddiweddaraf i’r Bwrdd ynghylch Partneriaeth Gymdeithasol a’r gwaith ar Brexit, gan egluro pwysigrwydd cynllunio ar gyfer y newidiadau mawr a fydd yn cael effaith o 1 Ionawr, p’un a oes cytundeb masnach ai peidio.

- Canolbwyntiodd Tracey ar waith a oedd yn ymwneud ag addysg, a chynllunio ar gyfer ailagor ysgolion ym mis Medi, y cynnig gofal plant, digartrefedd, tai, y gwaith sy’n mynd rhagddo gydag awdurdodau lleol, ac ymateb Canolfan Cydgysylltu Argyfyngau (Cymru). Dywedodd fod gwaith busnes fel arfer yn mynd rhagddo ochr yn ochr â’r holl waith allweddol o flaenoriaeth yr oedd wedi sôn amdano.

- Diolchodd yr Ysgrifennydd Parhaol i’r Cyfarwyddwyr Cyffredinol a’u timau am eu holl waith caled drwy gydol y flwyddyn.

**4. Y diweddaraf am gyllid**

**4.1** Rhoddodd Gawain Evans yr wybodaeth ddiweddaraf am ffigurau alldro dros dro a oedd heb eu harchwilio, yn erbyn dyraniadau cyllidebau adrannol a adlewyrchir yn yr Ail Gyllideb Atodol 2019-2020, a oedd yn canolbwyntio ar:

- Ragolygon refeniw
- Rhagolygon cyfalaf
- Y sefyllfa bresennol o ran cronfeydd wrth gefn

**4.2** Rhoddodd Andrew Jeffreys yr wybodaeth ddiweddaraf a oedd yn canolbwyntio ar y gyllideb ar gyfer ymateb i COVID-19 a'r gronfa ganlyniadol; pwyntiau allweddol o ddatganiad haf y canghellor; a'r gwaith a oedd yn mynd rhagddo i gynllunio ar gyfer cyllideb y flwyddyn nesaf.

**4.3** Gofynnodd y Cyfarwyddwyr Anweithredol nifer o gwestiynau a oedd yn ymwneud â llywodraethu mewn perthynas â phenderfyniadau ariannol, gan ofyn am ragor o wybodaeth ar ôl y cyfarfod.

**5. Yr wybodaeth ddiweddaraf am gyfathrebu**

**5.1** Cyfeiriodd yr Ysgrifennydd Parhaol at y dangosfwrdd cyfathrebu gan grynhoi'r darnau o waith allweddol a oedd yn ymwneud â chyfathrebu, gan gynnwys:

- Ffilmiau rheolaidd gan yr Ysgrifennydd Parhaol a'r Cyfarwyddwyr Cyffredinol, gan gynnwys ffilm i siaradwyr Cymraeg,
- Sesiynau ymgysylltu ag uwch weision sifil,
- Sesiynau ymgysylltu â'r holl staff, gan roi cyfle iddynt ofyn cwestiynau i'r Ysgrifennydd Parhaol a'r Cyfarwyddwyr Cyffredinol.

**5.2** Hefyd, dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol fod Strategaeth y Gymraeg wedi cael ei lansio, a bod amrywiaeth o becynnau hyfforddi ar gael i'r staff.

**6. Adnoddau a blaenoriaethau allweddol**

**6.1** Y Cyfarwyddwyr Anweithredol a oedd wedi gofyn am gynnwys yr eitem hon ar yr agenda er mwyn ceisio sicrwydd am sut y mae'r sefydliad yn cydbwyso'r galwadau sy'n deillio o'r argyfwng COVID-19, Brexit, a'r angen i

gyflawni'r rhaglen lywodraethu, ochr yn ochr â sicrhau cydnerthedd a llesiant y staff.

**6.2** Rhoddodd yr Ysgrifennydd Parhaol yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd ynghylch cynlluniau i sicrhau adnoddau, gan gyfeirio at y cynllun parhad sy'n ffurfio is-set o'r rhaglen lywodraethu fel y nodir yn Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru 2019. Mae iddo ddiben penodol, sef nodi gweithgareddau gweladwy ar wahân y gellir eu cyflawni. Bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal y gweithgareddau hyn fel rhan o'r gwaith o gyflawni ei blaenoriaethau drwy gyfnod yr argyfwng.

**6.3** Cafodd y cynlluniau adnoddau a'r cynllun parhad eu trafod ymhellach gan y Bwrdd. Diolchodd yr Ysgrifennydd Parhaol i'r Cyfarwyddwyr Anweithredol am eu cyfraniad, gan fynegi gwerthfawrogiad o'r modd yr oeddent yn herio'r hyn yr ydym yn ei wneud a'r rhesymau pam yr ydym yn gweithredu felly.

| **CAM GWEITHREDU** | **SWYDDOG ARWEINIOL** | **Y SEFYLLFA DDIWEDDARAF** |
|---|---|---|
| Dim | | |